

Cyfenw	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd
Enwau Eraill		0



TGAU

3300N20-1



A17-3300N20-1

MATHEMATEG

UNED 2: LLE CANIATEIR CYFRIFIANNELL

HAEN SYLFAENOL

DYDD LLUN, 13 TACHWEDD 2017 – BORE

1 awr 30 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Bydd angen cyfrifiannell ar gyfer y papur hwn.
Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Cewch ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen barhad yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen barhad.

Cymerwch π fel 3.14 neu defnyddiwch y botwm π ar eich cyfrifiannell.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn **5**, bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol yn ysgrifennu.

I'r Arholwr yn unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
1.	8	
2.	2	
3.	2	
4.	2	
5.	5	
6.	3	
7.	6	
8.	2	
9.	2	
10.	8	
11.	4	
12.	5	
13.	3	
14.	5	
15.	3	
16.	5	
Cyfanswm	65	


3300N201
01



NOV173300N20101

Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

$$\text{Arwynebedd trapesiwm} = \frac{1}{2} (a + b)h$$



1. (a) Ysgrifennwch dau ddeg (ugain) miliwn mewn ffigurau. [1]

.....

- (b) Ysgrifennwch 2.46 mewn geiriau. [1]

.....

- (c) Rhowch un pâr o gromfachau yn y cyfrifiad isod i'w wneud yn gywir. [1]

$$5 \times 4 + 2 = 30$$

- (ch) Ym mhob un o'r cwestiynau canlynol, defnyddiwch bob un o'r digidau 5, 1, 3 a 6 i wneud rhifau pedwar-digid.

- (i) Beth yw'r rhif mwyaf sy'n gallu cael ei wneud? [1]

.....

- (ii) Beth yw'r rhif mwyaf sy'n gallu cael ei wneud sy'n rhanadwy (*divisible*) â 2? [1]

.....

- (d) Ysgrifennwch y gweddill pan fo 488 yn cael ei rannu ag 16. [1]

.....

.....

- (dd) Defnyddiwch naill ai'r symbol < neu > i wneud pob gosodiad yn gywir. [2]

5	2
---	-------	---


4.3	4.25
-----	-------	------

-8	4
----	-------	---

-7	-6
----	-------	----



2.



(a) Tynnwch linell yn baralel i AB , drwy'r pwynt C .

[1]

(b) Tynnwch linell yn berpendicwlar i AB , drwy'r pwynt D .

[1]

3. (a) Ysgrifennwch y term nesaf yn y dilyniant isod.

[1]

1 5 9 13







(b) Disgrifiwch mewn geiriau y rheol ar gyfer parhau'r dilyniant.

[1]

.....



4. Isod mae rhai siapiau.



Rhowch gylch o amgylch CYWIR neu ANGHYWIR ar gyfer pob un o'r gosodiadau canlynol.

[2]

GOSODIAD		
Mae'r sgwariau yn gyfath (<i>congruent</i>).	CYWIR	ANGHYWIR
Mae'r trionglau yn gyfath.	CYWIR	ANGHYWIR
Mae'r pentagon yn rheolaidd.	CYWIR	ANGHYWIR
Mae'r trionglau yn isosgeles.	CYWIR	ANGHYWIR



5. *Yn y cwestiwn hwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.*

Mae 32 disgybl mewn dosbarth.
Mae 18 yn fechgyn.
Mae'r disgyblion eraill yn ferched.

Mae 12 disgybl o'r dosbarth hwn yn mynd ar drip.
Mae un o'r 12 disgybl hyn yn cael ei ddewis ar hap.
Mae **siawns deg** bod y disgybl sy'n cael ei ddewis yn ferch.

Faint o **ferched** sy'n aros yn y dosbarth?


[3 + 2 TCY]

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Nifer y merched sy'n aros yn y dosbarth yw



6. Mae'r grid yn dangos rhan o linell syth sy'n mynd drwy'r pwyntiau A a B .



(a) Beth yw cyfesurynnau pwynt A ?

[1]

.....

(b) Beth yw cyfesurynnau pwynt B ?

[1]

.....

(c) Mae Rhys yn credu byddai'r llinell yn mynd drwy'r pwynt $(6, 9)$.

Ydy Rhys yn gywir?

YDY NAC YDY

Esboniwch eich rhesymu.

[1]

.....

.....

.....



7. (a) Mae Kian yn meddwl am rif.
Chwarter ei rif yw 37.

Beth yw 10% o rif Kian?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[3]

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

10% o rif Kian yw

(b) Mae Sophie yn meddwl am rif rhwng 1 a 9.
Mae hi'n llusgi ei rhif â 6 ac yna'n adio 25.
Mae'r ateb terfynol yn gallu cael ei rannu'n union â 7.

Pa rif oedd Sophie wedi meddwl amdano gyntaf?

[3]

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Rhif Sophie yw



8. Ysgrifennwch 4.47367 yn gywir i:

(a) 1 lle degol

[1]

.....

(b) y rhif cyfan agosaf

[1]

.....

9. Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir ar gyfer pob un o'r gosodiadau canlynol.

(a) Mae $x + x + x + x + 2x$ yn gallu cael ei symleiddio i

[1]

 $6x$ x^6 $2x^6$ 6^x $5x$

(b) Pan fo $t = 185$, gwerth $21t$ yw

[1]

 $185t$

21 185

18 521

206

3 885



10. (a) Cyfrifwch 8% o £3.25.

[3]

.....

.....

.....

(b) Enrhifwch beth yw $0.65 \times 280 - \frac{2}{9}$ o 513.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(c) Cyfrifwch $3 \cdot 5^2 - \sqrt{8 \cdot 6}$.

Rhowch eich ateb yn gywir i 2 le degol.

[2]

.....

.....

.....



11. (a) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr amserau canlynol?

'07:30 ar 1 Tachwedd 2017' ac '13:20 ar 3 Tachwedd 2017'

Rhowch eich ateb mewn dyddiau, oriau a munudau.

[2]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

..... dydd awr munud

(b) Rhannwch 16 awr 20 munud â 5.

Rhowch eich ateb mewn oriau a munudau.

[2]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

..... awr munud



12. (a)

11	23	5	9	18	20	
-----------	-----------	----------	----------	-----------	-----------	--

Mae rhif yn mynd i gael ei ysgrifennu ar y cerdyn gwag.

Yr un peth yw modd a chanolrif y saith rhif.

Darganfyddwch un rhif posibl sy'n gallu cael ei ysgrifennu ar y cerdyn gwag. [1]

.....

.....

.....

.....

Rhif ar y cerdyn

(b) Mae un rhif arall yn mynd i gael ei ychwanegu at y rhestr ganlynol o dri rhif.

6 8 13

Mae cymedr y rhestr newydd o bedwar rhif yn 1 yn llai na chymedr y tri rhif gwreiddiol.

Pa rif gafodd ei ychwanegu at y rhestr? [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

Y rhif gafodd ei ychwanegu



13. Cyfrifwch arwynebedd y trapesiwm sydd i'w weld isod.
Rhaid i chi roi unedau eich ateb.

[3]



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....



14. (a) Mynegwch 54 fel canran o 129.
Rhowch eich ateb i'r rhif cyfan agosaf.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....

- (b) Rhannwch 25.8 kg yn ôl y gymhareb 5 : 1.

[2]

.....

.....

.....

.....

.....

..... kg a kg



15. Mae'r cardiau canlynol yn sillafu'r enw Ystradgynlais.

Y	S	T	R	A	D	G	Y	N	L	A	I	S
---	---	---	---	---	---	---	---	---	---	---	---	---

Mewn arbrawf, mae'r cardiau'n cael eu troi wyneb i lawr ac yn cael eu rhoi mewn trefn arall. Mae cerdyn yn cael ei ddewis ar hap ac mae rhywun yn cofnodi'r llythyren sydd ar y cerdyn.

Mae'r arbrawf yn cael ei wneud 325 gwaith.

Sawl gwaith byddech chi'n disgwyl i'r llythyren **Y** gael ei chofnodi?

[3]

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....

.....



- 16. AB yw diamedr cylch, canol O , sydd â'i radiws $OA = 4.2$ cm. Sgwâr yw $ABCD$.



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Cyfrifwch arwynebedd y rhanbarth sydd wedi'i dywyllu. Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[5]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

DIWEDD Y PAPUR



TUDALEN WAG

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON**



TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON



TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON

